# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Gallwch chi ddefnyddio Twitter i rannu'ch ymchwil yn hawdd ac yn gyflym â nifer fawr o bobl (mae ganddo 335 miliwn o bobl yn ei ddefnyddio bob mis). Gallwch chi ddilyn, aildrydar a rhyngweithio â defnyddwyr eraill i adrodd eich stori ymchwil.

## Ambell air i gall ar gyfer Twitter

Defnyddiwch eiriau allweddol fel bod defnyddwyr yn gallu dod o hyd i'ch trydariadau'n hawdd

Mae'n bwysig defnyddio hashnodau perthnasol e.e. #Ymchwil

Gwnewch yn siŵr bod y llun yn eich proffil, eich pennyn a'ch bywgraffiad yn eich cynrychioli chi

Ychwanegwch ddelweddau neu fideos at eich trydariadau; mae'r rhain yn bachu mwy o sylw

Os y buoch chi'n gweithio gyda rhywun arall sy'n defnyddio Twitter, yna defnyddiwch @ i sôn amdanyn nhw yn eich trydar

Yn rhy brysur? Yna gallwch chi ddefnyddio apiau trydydd parti i amserlennu'ch trydariadau

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk
02920 230 457
@YmchwilCymru
ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Twitter

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i’w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi’i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae’n rhaid i bobl allu ymdeimlo â’r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

Eich stori ymchwil

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau’n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi’n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i’ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy’ch ffactor ‘wow’? Mae’r straeon sy’n cael eu hadrodd orau’n creu emosiwn i’w cynulleidfa – dewch o hyd i’r ‘wow’ yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy’r stori y tu cefn i’ch prosiect ymchwil?

I gael gwybod mwy, ewch i’r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru